

Annwyl Dirprwy Weinidog,

Ysgrifennwn er mwyn mynegi ein gwrthwynebiad cryf i'ch tan-gyllido parhaus o'r Llyfrgell Genedlaethol. Byddai'r cynlluniau diweddaraf i golli 30 o swyddi arall yn ergyd enfawr i'r sefydliad cenedlaethol pwysicaf yng Ngheredigion.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn enghraifft brin o sefydliad cenedlaethol a leolir tu allan i Dde-ddwyrain y wlad. Mae'n gwneud cyfraniad diwylliannol ac economaidd hynod o bwysig mewn ardal lle mae eisoes prinder swyddi. Dros y degawd diwethaf mae cyllideb y Llyfrgell wedi disgyn yn sylweddol mewn termau real, ac mae degau o swyddi wedi mynd dros yr un cyfnod eisoes.

Mae'r Llyfrgell yn un o'r sefydliadau llawer rhy brin yng Nghymru sy'n gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg. Fel sefydliad, mae'n parhau i weithio drwy'r Gymraeg, a hynny heb gefnogaeth na chydabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru am bwysigrwydd effaith iaith hynny. Ymhellach, mae statws y Llyfrgell fel corff sy'n gweithio drwy'r Gymraeg wedi cael ei fygwth o ganlyniad i'ch penderfyniad chi fel Dirprwy Weinidog. Rydych chi wedi ceisio pwysu ar y Llyfrgell i beidio dynodi swyddi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn sgil hanfodol, a hynny er gwaethaf pwysigrwydd gweithio drwy'r Gymraeg i ddefnydd yr iaith ar lawr gwlad. Byddai parhau â'r toriadau mewn termau real hyn, heb amheuaeth, yn ergyd arall i'r Gymraeg yng Ngheredigion.

Yn ogystal, gresynwn eich penderfyniad i wrthod derbyn argymhelliad adroddiad annibynnol - adroddiad a gomisiynwyd gennych fel llywodraeth - i gynyddu ei chyllideb. Nodwn ar yr un pryd, eich bod yn parhau i roi cymhorthdal gwerth miliynau o bunnoedd i ffilmiau Anglo-Americanaidd Saesneg eu hiaith, aflwyddiannus nad ydym yn adrodd straeon Cymreig na Chymraeg. Mae'n bolisi sy'n gwastraffu llwyth o arian cyhoeddus ar ddiwylliant Anghymreig ond yn cyflwyno toriadau parhaus i sefydliadau sy'n adrodd stori Cymru.

Yn wir, mae'n anodd peidio â dehongli eich ymosodiadau, beirniadaeth ac esgeulustod o anghenion ein Llyfrgell Genedlaethol yn ddim llai na phenderfyniadau bwriadol i'w danseilio. Mae'n ddrwg gennym adrodd felly ein bod wedi colli hyder ynoch fel Dirprwy Weinidog i wneud yr hyn sy'n iawn i'n treftadaeth, ein hiaith a'n cymunedau. Yn anffodus, eich gwaddol fel Dirprwy Weinidog fydd diwylliant a threftadaeth dlotach.

Erfyniwn arnoch i ail-ystyried eich ymosodiadau bwriadus, ac, yn lle, i **gynyddu'r grant i'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn sicrhau bod swyddi a gwasanaethau yn cael eu hamddiffyn er lles treftadaeth a diwylliannau Cymru.**

Yn gywir,

Tamsin Davies

Rhanbarth Ceredigion, Cymdeithas yr Iaith